

Adroddiad blynyddol Oxfam Cymru: Polisi'r Gymraeg – Mawrth 2021

Cyhoeddodd Oxfam Cymru ei Bolisi a'i Gynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg ym mis Mawrth 2020. Mae'r papur hwn yn darparu adroddiad blynyddol ar y polisi a'r cynnydd o ran ei roi ar waith. Mae Polisi'r Gymraeg¹ a'r cynllun gweithredu² ar gael ar wefan Oxfam Cymru. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Rachel Cable, Pennaeth Oxfam Cymru, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan Oxfam Cymru. Rhannwyd y papur â Chomisynydd y Gymraeg.

Cyd-destun

Ers cyhoeddi Polisi'r Gymraeg, mae Oxfam wedi cael ei ailstrwythuro'n sylweddol,³ ac mae ffyrdd y sefydliad o weithio wedi newid o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae COVID-19 hefyd wedi cael effaith sylweddol ar elusennau,⁴ ac nid yw hyd a lled yr effaith yn hysbys eto. Mae COVID-19 yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys y Gymraeg. Mae Oxfam Cymru yn croesawu'r gwaith a wnaed i asesu hyn, gan gynnwys yr ymholiad gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd.⁵

Y cynnydd o ran gweithredu

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn unol â'r Cynllun Gweithredu.

Cam gweithredu	Y cynnydd a wnaed
Diweddarau staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru yn rheolaidd ynghylch datblygiad Polisi'r Gymraeg.	Gwnaed cynnydd da. Bydd y gweithgarwch hwn yn parhau, gan gynnwys ymhlith staff Oxfam GB sydd â chyfrifoldeb dros gyflawni gwaith yng Nghymru.
Trefnu digwyddiad lansio mewnol ⁶ ym mhrif swyddfa Oxfam GB yn Rhydychen ym mis Mawrth 2020.	Cynhaliwyd y digwyddiad. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys sesiwn Holi ac Ateb agored i staff, a chafodd ei ffrydio hefyd ar fewnwyd staff byd-eang Oxfam. Cynhaliwyd stonin wybodaeth yn atriwm y brif swyddfa yn ogystal, lle y gallai staff ddod o hyd i ragor o wybodaeth.
Mynd i'r afael â'r angen am gyfarchion ffôn dwyieithog yn Oxfam Cymru i alluogi staff i ateb ffôn y swyddfa yn ddwyieithog.	Mae amgylchiadau wedi newid y cam gweithredu hwn. Cyn cyfyngiadau symud COVID-19 ym mis Mawrth 2020, roedd Oxfam Cymru wedi trefnu digwyddiad hyfforddi ar gyfer staff gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ond ni lwyddwyd i gynnal y digwyddiad oherwydd y cyfyngiadau symud cyntaf yng Nghymru. Ers hynny, mae Oxfam GB wedi gwneud newidiadau i ôl troed ffisegol ei swyddfeydd, ac nid oes gan Oxfam Cymru swyddfa benodedig yng Nghymru mwyach. Mae prif linell ffôn Oxfam Cymru yn cael ei monitro gan Bennaeth Oxfam Cymru, sy'n ateb galwadau yn ddwyieithog.
Diweddarau llofnodion e-bost ac ymatebion y tu allan i oriau swyddfa.	Parhaus. Mae aelodau tîm Oxfam Cymru yn defnyddio ymatebion y tu allan i oriau swyddfa a llofnodion e-bost dwyieithog, a byddant yn parhau i wneud hynny.
Trefn amlinellol ar gyfer ymateb i negeseuon e-bost neu lythyrau Cymraeg, a rhannu hyn â'r staff.	Mae angen gweithredu pellach. Mae angen datblygu protocol ysgrifenedig, ynghyd â chanllawiau, ar sut i ymateb mewn modd priodol, a pha gamau gweithredu sy'n ofynnol.
Cydnabod yr angen am ragor o gyfieithwyr allanol i helpu Oxfam Cymru i gyflawni ei waith o dan y Polisi newydd hwn o ran y Gymraeg.	Parhaus. Mae Oxfam Cymru yn parhau i fonitro'r gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan ei gyfieithwyr cymeradwy.
Cydnabod yr angen am gyllideb i Oxfam Cymru ar gyfer adnoddau Cymraeg a dwyieithog fel y gallwn gyfleu ein gwaith i'r cyhoedd.	Parhaus. Mae cyfieithu yn cael ei ystyried ym mhob proses gyllidebol er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyfathrebu ein gwaith yn ddwyieithog.

<p>Nodi'r angen am gymorth ac adnoddau ychwanegol i ddarparu gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Parhaus. Er nad yw Oxfam Cymru yn darparu gweithdai i ysgolion yn uniongyrchol ar hyn o bryd, rydym wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru i gyfieithu amrywiaeth o adnoddau addysg Oxfam GB, a bydd y rhain yn cael eu lletya ar Yr Hwb i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.</p>
<p>Cydnabod yr angen am ddeialog barhaus â staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru er mwyn trafod unrhyw hyfforddiant neu gymorth ychwanegol y mae eu hangen i gyflawni'r polisi.</p>	<p>Parhaus. Eir i'r afael â hyn trwy gyfarfodydd staff un i un rheolaidd.</p>
<p>Nodi pwysigrwydd cynnal deialog rhwng staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru ynghylch unrhyw broblemau/faterion o ran rhoi'r polisi ar waith</p>	<p>Parhaus. Mae Oxfam Cymru yn ymdrechu i greu amgylchedd agored sy'n hyfforddi, a bydd amrywiaeth o gyfleoedd yn cael eu cyflwyno trwy fforymau gwahanol.</p>
<p>Nodi pwysigrwydd cael adroddiad blynyddol i'w rannu'n fewnol ac yn allanol ag eraill, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ynghylch y cynnydd blynyddol.</p>	<p>Parhaus. Roedd grŵp ffocws o aelodau staff wedi cael ei gynllunio ar gyfer mis Chwefror 2021, i drafod y cynnydd, ond oherwydd yr absenoldeb ffyrlo, bydd hwn yn cael ei ohirio tan fis Chwefror 2022, cyn i'r adroddiad nesaf gael ei lunio. Mae'r papur hwn yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, a bydd ar gael ar wefan Oxfam Cymru.</p>

Casgliadau ac adborth

Er gwaethaf amgylchedd heriol, mae Oxfam Cymru wedi gwneud cynnydd cadarn wrth weithredu ei Bolisi'r Gymraeg. Mae Polisi'r Gymraeg Oxfam Cymru yn dangos yn glir ein cefnogaeth a'n hymrwymiad i'r iaith, a'i nod yw sicrhau bod ein gwaith yn cael ei rannu'n ddwyieithog a'i fod yn hygyrch i bobl ledled Cymru. Mae Oxfam Cymru yn croesawu adborth ac awgrymiadau ar ein Polisi'r Gymraeg – anfonwch neges e-bost i oxfamcymru@oxfam.org.uk.

¹ Oxfam Cymru, Polisi'r Gymraeg, Mawrth 2020. Ar gael yn <https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2020/02/OxfamCymruWelshLanguagePolicy-2020.pdf>.

² Oxfam Cymru, Cynllun Gweithredu Polisi'r Gymraeg, Mawrth 2020. Ar gael yn <https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2020/02/ImplementationPlan.pdf>.

³ Oxfam, Oxfam yn cyflymu newidiadau strategol newydd i'w weithrediadau byd-eang, Mai 2020. Ar gael yn <https://www.oxfam.org/en/press-releases/oxfam-accelerates-new-strategic-changes-its-global-operations>.

⁴ Y Trydydd Sector, ymchwil yn rhybuddio y gallai argyfwng COVID-19 orfodi un ymhob deg elusen i gau cyn pen blwyddyn. Hydref 2020. Ar gael yn <https://www.thirdsector.co.uk/covid-19-crisis-force-one-10-charities-close-within-year-research-warns/management/article/1698282>.

⁵ Y Senedd: Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg, Rhagfyr 2020. Ar gael yn <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13874/cr-ld13874-w.pdf>.

⁶ Oxfam Cymru, trydariad ynghylch Lansio Polisi'r Gymraeg, Mawrth 2020. Ar gael yn <https://twitter.com/OxfamCymru/status/1234497956365160449>.